Addressing the Barriers:
Insufficient Demand for Care Inspectorate Wales Registration

The benefits of registering your Out of School Childcare Club with Care Inspectorate Wales (CIW) for businesses, parents/carers and children are typically understood. However, you may currently be continuing to offer an unregistered service due to a belief that there is insufficient demand from your community for you to register.

No one has asked us to register

As part of your business plan and marketing strategy, we recommend that you proactively seek the views of your service users to ensure that your service is meeting their needs. Parents/carers may not have specifically requested for you to register your service, but this could be for of a multitude of reasons, including a lack of awareness of CIW registration and its benefits or acceptance of status quo and not wanting to 'cause a fuss'. Sending out regular Satisfaction Surveys (a template is available for members in our *Stepping Out Guide*) will provide parents/carers with the opportunity to feedback about their current and future needs.

There may also be parents/carers not accessing your service **because** it is not registered, who either require support with affordability (e.g. through the Tax-Free Childcare scheme, the Childcare Offer or the childcare element of Working Tax Credit/Universal Credit) or with accessibility (through increased opening hours). Are you consulting with parents/carers who are not currently using your service? This can be achieved through school-wide questionnaires, social media polls, open evenings, or school gate surveys.

Our opening times already meet the needs of our parents/carers

As above, parents/carers may not be expressly requesting an increase in opening hours, but they may currently be having to rely on family members to collect children or they may have to ensure they finish work at a certain time, or alternate annual leave with partners/family during school holidays to manage childcare needs, reducing opportunities for family days out/family holidays. As outlined above, regularly seeking feedback from parents/carers about their needs and how these can best be met and supported with help to ensure that your service is truly meeting local needs.

Extended opening times (or extending to offer care during school holidays) may support parents/carers to make positive changes for themselves (e.g. taking on additional hours/ seeking promotion opportunities) that would not be possible with current opening times. It might also attract in new service users, who are not currently utilising your service due to opening times, which will support your sustainability.

We already have enough children attending the Club to support our sustainability and do not need to make changes to encourage higher attendance

Whilst it is excellent news if your business is sustainable with current attendance levels, sustainability is not a permanent state and local, National or global events/circumstances can impact on individual businesses. Your local Childcare Business Development Officer can support you to complete a Cashflow Forecast, whereby you can review the impact that losing even just two or three full time service users could have on your business. Registering with CIW helps to futureproof your business by allowing you to ensure you are able to meet changing requirements of your local community.

There is no demand from parents/carers to offer Childcare Offer places, as our school already offers nursery/wraparound provision

Parents/carers may already be utilising other term time provision for their Childcare Offer funded hours; however, is there sufficient provision to meet demand for school holidays? Parents/carers are able to claim Childcare Offer hours during school holidays, and many take up places with other Providers during these weeks due to some Nurseries/Providers opening during term time only. There are also other schemes available for eligible families including Tax-Free Childcare and the childcare element of Working Tax Credits/Universal Credit, which are also only available for parents/carers utilising services that are registered with CIW

Rhoi sylw i'r Rhwystrau:
Galw Annigonol am Gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae manteision cofrestru'ch Clwb Gofal Plant Allysgol Plant Allysgol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru fel arfer yn ddealledig. Eto, mae'n bosibl eich bod ar hyn o bryd yn dal i gynnig gwasanaeth nad yw wedi ei gofrestru am eich bod yn credu bod y galw arnoch yn y gymuned i gofrestru yn annigonol.

Nid oes neb wedi gofyn i ni gofrestru

Yn rhan o'ch cynllun busnes a strategaeth farchnata, awgrymwn eich bod yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio safbwyntiau defnyddwyr eich gwasanaeth i sicrhau bod eich gwasanaeth yn bodloni eu hanghenion. Efallai nad yw rhieni/gofalwyr wedi gwneud cais penodol ar i chi gofrestru'ch gwasanaeth, ond gall hyn fod am amryfal resymau, yn cynnwys prinder ymwybyddiaeth o gofrestriad gydag AGC a'i fanteision, neu dderbyniad o bethau fel ag y maent ac ddim am beidio â 'ffwdanu'. Bydd anfon allan Arolygon Boddhad yn rheolaidd (mae templed ar gael i'n haelodau yn ein harweiniad, *Camu Allan*) yn rhoi i rieni/gofalwyr y cyfle i adrodd yn ôl ar eu hanghenion presennol ac i'r dyfodol.
Efallai hefyd y bydd rhieni/gofalwyr nad ydynt yn defnyddio'ch gwasanaeth **oherwydd** nad yw'n gofrestredig, rhai y mae arnynt angen cefnogaeth gyda fforddiadwyedd (e.e. drwy'r cynllun Gofal Plant Di-dreth, y Cynnig Gofal Plant neu elfen ofal plant Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol) neu ynghylch mynediad (drwy gynyddu'r oriau agor). A ydych yn ymgynghori â'r rhieni/gofalwyr nad ydynt ar hyn o bryd yn defnyddio'ch gwasanaeth? Gellir gwneud hyn drwy holiaduron ysgol-gyfan, polau cyfrwng-cymdeithasol, nosweithiau agored neu arolygon giât-ysgol.

Mae ein hamserau agor eisoes yn bodloni anghenion ein rhieni/gofalwyr

Fel yn yr uchod, mae'n bosibl nad yw rhieni/gofalwyr yn gofyn yn benodol am gynnydd yn yr oriau agor, ond gallent fod ar hyn o bryd yn gorfod dibynnu ar aelodau o'r teulu i gasglu'r plant, neu gallent fod yn gorfod gwneud yn siŵr eu bod yn gorffen gwaith ar amser arbennig, neu gymryd eu tro gyda phartneriaid/teulu o ran gwyliau blynyddol yn ystod gwyliau'r ysgol er mwyn rheoli'r anghenion gofal plant, gan leihau'r cyfleoedd am ddyddiau allan gyda'r teulu/gwyliau teuluol. Fel yr amlinellir uchod, ceisiwch adborth rheoliad gan rieni/gofalwyr am eu hanghenion a sut orau y gellir bodloni a chefnogi'r rhain i sicrhau bod eich gwasanaeth yn wirioneddol fodloni anghenion lleol.
Gallai amserau agor estynedig (neu ymestyn i gynnig gofal yn ystod gwyliau'r ysgol) gefnogi rhieni/gofalwyr i wneud newidiadau cadarnhaol drostynt eu hunain (e.e. cymryd oriau ychwanegol / ceisio cyfleoedd am ddyrchafiad) na fyddai'n bosibl gyda'r amserau agor presennol. Gallai hefyd ddenu defnyddwyr newydd i'r gwasanaeth, nad ydynt ar hyn o bryd yn defnyddio'ch gwasanaeth oherwydd amserau agor, a fydd yn cefnogi eich cynaliadwyedd.

Mae gennym eisoes ddigon o blant yn mynychu'r clwb i gefnogi ein cynaliadwyedd ac nid oes angen i ni wneud newidiadau er mwyn cael mwy.

Er ei bod yn newyddion rhagorol os yw'ch busnes yn gynaliadwy ar y lefelau presenoldeb presennol, nid yw cynaliadwyedd yn gyflwr parhaol, a gall digwyddiadau/amgylchiadau cenedlaethol neu fyd-eang effeithio ar fusnesau unigol. Gall eich Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant eich helpu i gwblhau Rhagolwg Llif Arian, a fydd yn eich galluogi i adolygu'r effaith y gall colli hyd yn oed dau neu dri defnyddiwr gwasanaeth llawn amser ei gael ar eich busnes. Mae cofrestru gydag AGC yn gymorth i amddiffyn eich busnes rhag yr hyn a ddaw drwy eich galluogi i sicrhau eich bod â'r modd i ateb gofynion newidiol eich cymuned leol.

Nid oes galw gan rieni/gofalwyr i gynnig lleoedd y Cynnig Gofal Plant, gan fod ein hysgol eisoes yn cynnig darpariaeth feithrin/amlapiol.

Efallai fod y rhieni/gofalwyr eisoes yn defnyddio darpariaethau eraill yn ystod y tymor o ran eu horiau a ariennir gan y Cynnig Gofal Plant; ond, a oes digon o ddarpariaeth i ateb y galw dros wyliau'r ysgol? Mae modd i rieni/gofalwyr hawlio'r Cynnig Gofal Plant yn ystod gwyliau'r ysgol, ac mae nifer yn cymryd lleoedd gyda Darparwyr eraill yn ystod yr wythnosau hyn oherwydd bod rhai Meithrinfeydd/Darparwyr yn agor yn ystod y tymor yn unig. Y mae hefyd gynlluniau eraill ar gael i deuluoedd cymwys, yn cynnwys Gofal Plant Di-dreth ac elfen ofal plant Credydau Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol, sydd hefyd ddim ond ar gael i rieni/gofalwyr sy'n defnyddio gwasanaethau sydd wedi eu cofrestru gydag AGC.